# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

**RHAN 6**

ATODOL

*Darpariaeth benodol ar gyfer lleoliadau pellach etc*

VALID FROM 01/09/2022

**70 Pŵer i gymhwyso'r Ddeddf i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth**

(1) Caiff rheoliadau gymhwyso darpariaethau yn y Ddeddf hon, gydag addasiadau neu hebddynt—

(a) i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, a

(b) i bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau.

(2) Yn yr adran hon, ystyr plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yw plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn unol—

(a) â gorchymyn a wneir gan lys, neu

(b) â gorchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 70 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 70.